

ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus rydym wedi'i gynnal yn awgrymu mai bach fyddai'r effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg pe bai defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael ei wahardd.

Yr amcan polisi yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, ar sail foesegol. Ni fydd y Bil yn effeithio ar y defnydd o anifeiliaid domestig mewn syrcasau. Mae syrcasau teithiol wedi teithio o amgylch y Deyrnas Unedig ers dau gan mlynedd a mwy bydd dal croeso iddynt yng Nghymru, cyn belled nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt.

Nid oes unrhyw syrcas sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt yng Nghymru, ond maent yn ymweld. Mae nifer y syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a nifer yr anifeiliaid gwyllt yn y syrcasau hynny wedi lleihau'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Dim ond dwy syrcas deithiol sy'n teithio gydag anifeiliaid gwyllt erbyn hyn; Circus Mondao a Syrcas Peter Jolly. Mae'r ddwy o Loegr ac wedi'u trwyddedu o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Lloegr) 2012, yn ymweld yn rheolaidd. Yn ôl amserlenni teithio a gyflwynwyd i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), mae Circus Mondao wedi ymweld â Chymru bob blwyddyn ers i'r Rheoliadau ddod i rym ym mis Ionawr 2013. O 2013 i 2018 (cynwysedig), ymwelodd Circus Mondao â rhwng wyth ac 14 safle'r flwyddyn yng Nghymru, ar draws 16 ardal awdurdod unedol (gweler tabl 8.9 yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol), fel arfer yn aros ym mhob safle am oddeutu wythnos, weithiau'n hirach. Ymwelodd Syrcas Peter Jolly yn 2014 (tri safle), 2016 (deg safle) and 2018 (pum safle), ar draws chwe ardal awdurdod unedol (gweler tabl 8.11 yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol), fel arfer yn aros ym mhob safle am gyfnod o rhwng wythnos a phythefnos

Yn ôl Aseiad Effaith Defra yn 2012, roedd ffigurau a roddwyd i Defra yn 2007 yn amcangyfrif i ryw 320,000 o bobl fynychu'r pedair syrcas deithiol oedd yn defnyddio anifeiliaid gwyllt y flwyddyn honno.¹ Ar gyfer 2010, amcangyfrifwyd bod ffigurau ymwelwyr y tair syrcas deithiol oedd yn weddill a oedd yn defnyddio anifeiliaid gwyllt yn 121,000 ac ar gyfer 2011, 153,000 (ledled Cymru a Lloegr). Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru)², dywedodd Circus Mondao fod 16,000 o bobl wedi ymweld â'u syrcas yng Nghymru yn 2017 ac 20,000 yn 2018.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) drafft ar 1 Hydref 2018. Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried pedwar cwestiwn ar ddeg, gyda dau ohonynt yn holi am y Gymraeg yn benodol:

Cwestiwn 12: *Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig*

¹ Defra, Ending the use of wild animals in travelling circuses, Impact Assessment (2012) <http://www.legislation.gov.uk/ukia/2012/41/pdfs/ukia_20120041_en.pdf>

² Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) <<https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>>

ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 13: *Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gallai Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) gael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Ionawr 2019.³

Ymatebodd 6,546 o bobl i'r ymgynghoriad gyda 777 yn ateb cwestiwn 12 a 593 yn ateb cwestiwn 13. Roedd bron pawb a ymatebodd o'r farn na fyddai effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg, heb roi tystiolaeth i gefnogi eu hymateb. Roedd hyn yn cynnwys Circus Mondao, un o'r ddwy syrcas deithiol sy'n teithio gydag anifeiliaid gwyllt, a ddywedodd na fyddai "dim effaith" ar y Gymraeg pe baent yn cael eu gwahardd rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt. Ni ymatebodd Syrcas Peter Jolly. Gyda'r posibilrwydd y bydd perfformiadau gan bobl yn llenwi'r bwch yn absenoldeb anifeiliaid gwyllt, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai fod mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig os yw syrcasau teithiol yn cynnwys doniau lleol wrth ymweld â Chymru.

Ni chafwyd argymhellion i wneud newidiadau i'r Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu i'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ni nodwyd effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

³ Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) <<https://llyw.cymru/bil-anifeiliaid-gwyllt-mewn-syrcasau-teithio>>